Office for Product Safety & Standards



# Cadwch yn saff dros dymor y tân gwyllt

**Dyma'r adeg o'r flwyddyn pan fo tân gwyllt yn goleuo awyr y nos. Ond os nad yw'r tân gwyllt yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel, gallai pobl ac anifeiliaid gael eu hanafu'n ddrwg.**

**Os ydych chi'n dathlu gartref, dilynwch ein cyngor**

# Pa dân gwyllt ga i ei ddefnyddio gartref?

Cyn ichi brynu tân gwyllt, gwiriwch fod gennych chi ddigon o le yn eich gardd i'w ddefnyddio. Gallwch chi weld categori'r tân gwyllt a'r pellter diogelwch ar gyfer ei ddefnyddio ar focs y tân gwyllt.

**F1** Y pellter diogelwch lleiaf yw **1 metr** o leiaf oni nodir yn wahanol.

**F2** Y pellter diogelwch lleiaf yw **8 metr** o leiaf oni nodir yn wahanol.

**F3** Y pellter diogelwch lleiaf yw **15 metr** o leiaf oni nodir yn wahanol.

Y pellteroedd diogelwch lleiaf yn unig yw'r rhain ac mae'n bosib y bydd angen mwy o le ar gyfer tân gwyllt penodol. Gwiriwch fod gennych chi ddigon o le i ddefnyddio tân gwyllt yn ddiogel cyn ei brynu.



# Gadewch inni fod yn ddiogel



## Storiwch dân gwyllt yn gywir

Storiwch dân gwyllt yn ei becyn gwreiddiol. Cadwch dân gwyllt dan glo, allan o gyrraedd plant ac anifeiliaid. Cadwch dân gwyllt yn sych ac i ffwrdd o ffynonellau gwres neu dân.

## Darllenwch y cyfarwyddiadau i gyd

Bydd y pecyn yn rhoi gwybodaeth bwysig ichi fel pa mor bell i ffwrdd mae angen i bobl sefyll unwaith y bydd y tân gwyllt wedi'i danio. Os nad ydych chi'n deall y cyfarwyddiadau a'r rhybuddion, peidiwch â defnyddio'r tân gwyllt. Chwiliwch am y nod UKCA neu CE.



## Gwaredwch dân gwyllt yn ddiogel




Gofalwch fod y tân gwyllt wedi diffodd.




Trochwch e mewn dŵr dros nos.




Rhowch e mewn bag ac yn y bin.